OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2019 (Cy. 140)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

## Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach (Diddymu) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *17 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mehefin 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1, 15(3) ac 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), a phob pŵ er arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw:—

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach (Diddymu) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Mehefin 2001.

### Diddymu

**2.** Mae Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach 1992(**2**) drwy hyn wedi'i ddiddymu mewn perthynas â Chymru fel y diffiniwyd yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

(**1**) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29) adran 19(1), a'i diwygio gan baragraff 38(a) o Atodlen 13 i Ddeddf Llongau Masnachol 1995 (p.21) a pharagraff 43(2) a (3) o Atodlen 2 i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77) Atodlen 1, paragraff 38(3) a'i diwygio gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86) Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, paragraff 43(2)(b).
Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) cafodd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 1, 15(3) ac 20(1) o Ddeddf 1967 eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru.
Diffiniwyd "Wales" yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) fel ei bod yn cynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea". Mewn perthynas â dyfroedd y tu hwnt i Gymru mae'r swyddogaethau hyn yn dal yn arferadwy gan y Gweinidogion.
Gweler adran 22(2) o Ddeddf 1967 i gael diffiniadau o "the Ministers" at ddibenion adrannau 1 a 15(3). Diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d) a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, paragraff 43(12) o Atodlen 2.

(**2**) O.S. 1992/1212. Cafodd y Gorchymyn ei ddiddymu gan O.S. 2000/1234 ac eithrio i'r graddau yr oedd yn rhan o Gyfraith yr Alban neu yn effeithiol mewn perthynas â Chymru. Cafodd ei ddiddymu ymhellach mewn perthynas â'r Alban gan O.S.A. 2000/82.

(**3**) 1998 p.38. (Gweler y diffiniad yn nhroednodyn (a) uchod.)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

*John Marek*

17 Mai 2001

Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach 1992 ("Gorchymyn 1992"), sydd eisoes wedi'i ddiddymu mewn perthynas â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon (erthygl 2). Pennodd Gorchymyn 1992 isafswm maint ar gyfer glanio a gwerthu gwyniaid (*Merlangius merlangus*) ym Mhrydain ac ar gyfer eu cludo ar gwch pysgota Prydeinig. Gwnaed darpariaeth gysylltiedig ynddo hefyd ar gyfer gorfodi.

Erbyn hyn, rhagnodir yr isafswm maint ar gyfer glanio, gwerthu, storio a chludo gwyniaid gan erthygl 19 (o'i darllen gydag erthygl 17) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 (OJ Rhif L125, 27.04.98, t.1). Mae'r Rheoliad hwnnw'n darparu ar gyfer cadwraeth adnoddau pysgodfeydd drwy gyfrwng mesurau technegol ar gyfer diogelu y rhai ifanc o organeddau morol. Mae darpariaethau ar gyfer gorfodi'r cyfyngiadau a'r rhwymedigaethau a geir yn y Rheoliad hwnnw wedi'u nodi yng Ngorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000, a ddaeth i rym ar 11 Medi 2000. [2000 Rhif 2230 (Cy. 148)].